OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 812 (Cy.92)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*16.00 ar 21 Mawrth 2002*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwer a roddwyd iddo gan adrannau 79C a 104(4) o Ddeddf Plant 1989(**1**):

RHAN —
CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â phersonau sy'n gweithredu fel gwarchodwyr plant neu'n darparu gofal dydd ar safle perthnasol yng Nghymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "corff" ("*organisation*") yw corff corfforaethol;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darpariaeth chwarae mynediad agored "("*open access play provision*") yw darpariaeth gofal dydd nad yw'n gofyn am y canlynol:

(a) trefniant ymlaen llaw gan y person cofrestredig i ddarparu gofal o'r fath; neu

(b) bod plant yn cael eu hebrwng gan riant neu berson cyfrifol arall yn ôl ac ymlaen i'r safle perthnasol;

(**1**) 1989 p.41; mewnosodwyd adran 79C gan adran 79 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14).

ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â rheoliad 3(1);

ystyr "datganiadau safonau gofynnol cenedlaethol" ("*statements of national minimum standards*") yw'r datganiadau safonau gofynnol cenedlaethol a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ddyddiad gwneud y Rheoliadau hyn;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "person cofrestredig" ("*registered person*") yw person sydd wedi'i gofrestru o dan Ran XA o'r Ddeddf fel gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd;

ystyr "person sy'n gyfrifol" ("*person in charge*"), mewn perthynas â gofal dydd, yw'r unigolyn sydd wedi'i benodi gan y person cofrestredig fel y person sy'n gyfrifol am ddarparu gofal dydd gwirioneddol ar y safle;

ystyr "plentyn perthnasol" ("*relevant child*") yw plentyn y mae person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant mewn perthynas ag ef neu, yn ôl fel y digwydd, y mae gofal dydd yn cael ei ddarparu iddo gan berson cofrestredig;

ystyr "safle perthnasol" ("*relevant premises*") yw'r safle lle mae'r person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu, yn ôl fel y digwydd, lle mae gofal dydd yn cael ei ddarparu gan berson cofrestredig;

ystyr "safonau gofynnol cenedlaethol" ("*national minimum standards*") yw'r safonau sydd wedi'u nodi yn y datganiadau safonau gofynnol cenedlaethol;

ystyr "swyddfa briodol" ("*appropriate office*")

(a) os yw swyddfa wedi'i phennu o dan baragraff (2) mewn perthynas ag unrhyw safle perthnasol, yw'r swyddfa honno;

(b) mewn unrhyw achos arall, yw unrhyw un o swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol;

mae i "unigolyn cyfrifol" ("*responsible individual*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 4.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol bennu swyddfa sydd o dan ei reolaeth fel y swyddfa briodol mewn perthynas â safle perthnasol sydd wedi'i leoli mewn ardal benodol o Gymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad—

(a) at reoliad neu atodlen â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn neu at yr Atodlen iddynt sy'n dwyn y rhif hwnnw;

(b) mewn rheoliad neu Atodlen at baragraff â rhif, yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw neu'r Atodlen honno sy'n dwyn y rhif hwnnw;

(c) mewn paragraff at is-baragraff â llythyren neu rif yn gyfeiriad at yr is-baragraff yn y paragraff hwnnw sy'n dwyn y llythyren honno neu'r rhif hwnnw.

(4) Yn y rheoliadau hyn, onid yw'n ymddangos bod bwriad i'r gwrthwyneb, mae cyfeiriadau at gyflogi person yn cynnwys cyflogi person p'un ai am dâl neu beidio, a ph'un ai o dan gontract gwasanaeth, contract ar gyfer gwasanaethau neu fel arall heblaw o dan gontract, a chaniatáu i berson weithio fel gwirfoddolwr, a dehonglir cyfeiriadau at gyflogai neu gyflogi person yn unol â hynny.

Datganiad o ddiben

3.—(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio mewn perthynas â'r gwaith gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd y mae'r person wedi'i gofrestru ar ei gyfer, datganiad ar bapur ("y datganiad o ddiben") a rhaid i'r datganiad hwnnw gynnwys—

(a) datganiad o nodau ac amcanion;

(b) datganiad ynghylch ystod oedran, rhyw a nifer y plant y bwriedir darparu gofal ar eu cyfer gan y person cofrestredig ac ynghylch ystod yr anghenion y mae'r person yn bwriadu eu diwallu;

(c) datganiad ynghylch y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd i'w darparu neu i'w rhoi ar gael i blant perthnasol;

(ch) datganiad ynghylch y gweithgareddau sydd i'w darparu ac ynglŷn â'r iaith neu'r ieithoedd y darperir y gweithgareddau drwyddynt; a

(d) datganiad ynghylch y telerau a'r amodau y darperir gofal yn unol â hwy i blant perthnasol pan fydd y person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu'n darparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu fod gofal dydd yn cael ei ddarparu, yn ôl fel y digwydd, mewn modd sy'n gyson â'r datganiad o ddiben.

(3) Ni fydd dim ym mharagraff (2) nac yn rheoliad 20 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person cofrestredig dorri neu beidio â chydymffurfio â'r canlynol nac yn ei awdurdodi i wneud hynny—

(a) unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn; neu

(b) yr amodau sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â chofrestru'r person cofrestredig o dan Ran XA o'r Ddeddf.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig—

(a) cadw'r datganiad o ddiben o dan sylw, ac os yw'n briodol, ei adolygu; a

(b) pryd bynnag y bo'n ymarferol, hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol o unrhyw adolygiad o'r fath o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad y mae ei effaith i fod i ddechrau.

RHAN II —

PERSONAU COFRESTREDIG

Y person cofrestredig — ei addasrwydd

4.—(1) Rhaid i berson beidio â gweithredu fel gwarchodwr plant na darparu gofal dydd oni bai bod y person yn addas i ofalu am blant o dan wyth oed.

(2) Nid yw person yn addas felly oni bai bod y person—

(a) yn unigolyn sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant ar ei ben ei hun neu sy'n darparu gofal dydd ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth ag un neu ragor o bersonau, ac yn bodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi ym mharagraff (3); neu

(b) yn achos person sy'n darparu gofal dydd, yn gorff a—

(i) bod y corff wedi hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch enw, cyfeiriad a safle unigolyn yn y corff (unigolyn y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "yr unigolyn cyfrifol") sy'n un o gyfarwyddwyr, rheolwyr, ysgrifenyddion y corff neu'n un o'i swyddogion eraill ac sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith darparu gofal dydd o'r fath; a

(ii) bod yr unigolyn hwnnw yn bodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi ym mharagraff (3).

(3) Y gofynion yw—

(a) bod y person yn addas o ran ei onestrwydd a'i gymeriad da i ofalu am blant o dan wyth oed;

(b) bod y person yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i ofalu am blant o dan wyth oed;

(c) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol, yn ôl fel y digwydd, ar gael mewn perthynas â'r person—

(i) ac eithrio os yw paragraff (4) yn gymwys, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 1 i 6 o Atodlen 2;

(ii) os yw paragraff (4) yn gymwys, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 1 a 3 i 7 o Atodlen 2.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os nad oes unrhyw dystysgrif neu wybodaeth am unrhyw faterion a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 2 ar gael i unigolyn am nad yw unrhyw un o ddarpariaethau Deddf yr Heddlu 1997(**2**) wedi'i dwyn i rym.

(5) Nid yw person yn addas i weithredu fel gwarchodwr plant nac i ddarparu gofal dydd—

(a) os yw'r person wedi'i ddyfarnu'n fethdalwr neu os yw ei ystad wedi'i hatafaelu ac nad yw'r person (yn y naill achos neu'r llall) wedi'i ryddhau a bod y gorchymyn methdaliad heb ei ddirymu nac wedi'i ddadwneud; neu

(b) os yw'r person wedi gwneud unrhyw gyfaddawd neu drefniant gyda'i gredydwyr, a heb gael ei ryddhau mewn perthynas ag ef.

Y person cofrestredig — gofynion cyffredinol

5.—(1) Rhaid i'r person cofrestredig, o roi sylw

(a) i'r datganiad o ddiben, nifer y plant perthnasol a'u hanghenion (gan gynnwys unrhyw anghenion sy'n deillio o anabledd), a

(b) i'r angen i ddiogelu a hybu eu lles,

weithredu fel gwarchodwr plant neu ddarparu gofal dydd (yn ôl fel y digwydd) â gofal, medrusrwydd a medr digonol.

(2) Os yw person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu yn unigolyn sy'n darparu gofal dydd, rhaid i'r person cofrestredig ymgymryd o bryd i'w gilydd ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol i sicrhau bod ganddo'r profiad a'r medrau sy'n angenrheidiol i weithredu fel gwarchodwr plant neu i ddarparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd.

(3) Os corff sy'n darparu gofal dydd yw'r person cofrestredig rhaid iddo sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol i sicrhau bod ganddo'r medrau sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu gofal dydd.

Hysbysu am dramgwyddau

6.—(1) Os yw'r person cofrestredig neu'r unigolyn sy'n gyfrifol wedi'i gael yn euog o unrhyw dramgwydd troseddol, boed yng Nghymru neu'n rhywle arall, rhaid i'r person a gafwyd yn euog hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig ar unwaith o'r canlynol:

(a) dyddiad a lleoliad y gollfarn,

(b) y tramgwydd y cafwyd y person yn euog ohono, ac

(c) y gosb a osodwyd ar y person mewn perthynas â'r tramgwydd.

(2) Os yw'r person cofrestredig wedi'i gyhuddo o unrhyw dramgwydd y gellir gwneud gorchymyn mewn perthynas ag ef o dan Ran II o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000(**3**) rhaid i'r person hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith yn ysgrifenedig o'r tramgwydd y mae wedi'i gyhuddo ohono a dyddiad a man y cyhuddiad.

(**2**) 1997 p.50. Nid yw adrannau 113 a 115, fel y'u diwygiwyd, wedi'u dwyn i rym eto. Gweler ymhellach y troednodiadau i baragraff 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) 2000 p.50.

RHAN III —

LLES A DATBLYGIAD PLANT PERTHNASOL

Hybu lles

7.—(1) Rhaid i'r person cofrestredig weithredu fel gwarchodwr plant neu ddarparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd, yn y fath fodd ag i wneud y canlynol—

(a) hybu lles plant perthnasol a darparu'n briodol ar ei gyfer; a

(b) darparu'n briodol ar gyfer gofal, addysg, goruchwyliaeth ac, os yw'n briodol, driniaeth plant perthnasol.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig, er mwyn darparu gofal i blant perthnasol a darparu'n briodol ar gyfer eu lles, a chyn belled ag y bo'n ymarferol, ddarganfod eu dymuniadau a'u teimladau a'u cymryd i ystyriaeth.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau—

(a) bod preifatrwydd ac urddas plant perthnasol yn cael eu parchu;

(b) bod sylw dyledus yn cael ei roi i ryw, argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol a chefndir diwylliannol ac ieithyddol plant perthnasol ac unrhyw anabledd sy'n effeithio arnynt

tra bod y plant hynny o dan ofal y person.

Y bwyd a ddarperir ar gyfer y plant

8.—(1) Os oes bwyd yn cael ei ddarparu i'r plant perthnasol gan y person cofrestredig, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau

(a) eu bod yn cael—

(i) digon o fwyd a bod hwnnw'n cael ei ddarparu bob hyn a hyn fel y bo'n briodol;

(ii) bwyd sydd wedi'i baratoi'n iawn, sy'n iach ac yn faethlon;

(iii) bwyd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ac sy'n cymryd i ystyriaeth eu dymuniadau rhesymol;

(iv) bwyd sy'n ddigon amrywiol; a

(b) bod unrhyw angen deietegol arbennig plentyn perthnasol, sy'n deillio o iechyd, argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol neu gefndir diwylliannol y plentyn, yn cael ei ddiwallu.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod modd i blant perthnasol gael dŵ r yfed ffres yn ystod yr holl gyfnod y maent o dan ofal y person.

Y trefniadau ar gyfer amddiffyn plant

9.—(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio a gweithredu polisi ysgrifenedig—

(a) sydd wedi'i fwriadu i ddiogelu plant perthnasol rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso; a

(b) sy'n nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn os bydd unrhyw honiad o gamdriniaeth neu esgeulustod.

(2) Yn benodol rhaid i'r weithdrefn o dan baragraff (1)(b) ddarparu ar gyfer y canlynol—

(a) cysylltu a chydweithredu ag unrhyw awdurdod lleol sy'n gwneud, neu a all fod yn gwneud, ymholiadau amddiffyn plant mewn perthynas â phlentyn perthnasol;

(b) cyfeirio yn ddi-oed unrhyw honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod sy'n effeithio ar blentyn perthnasol at yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle mae'r safle perthnasol;